

# Post Penalltau

01443 862974  
ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk  
ysgolpenalltau.com



## Post Penalltau – 05/09/2025

SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION



Wrth i ni sefyll ar drothwy blwyddyn academiaidd newydd sbon, rydym yn estyn croeso cynnes i'n holl deuluoedd—y rhai sy'n dychwelyd a'r rhai sy'n ymuno â ni am y tro cyntaf yn y Dosbarth Derbyn a'r Meithrin. Gobeithiwn fod eich haf wedi bod yn llawn llawenydd, gorffwys, ac eiliadau ystyrllon gyda'ch anwyliaid.

Mae ein hysgol unwaith eto yn llawn egni a chyffro plant sy'n awyddus i ddysgu, chwarae, a thyfu.

I'n teuluoedd Derbyn a Meithrin, mae'n anrhydedd i ni eich hebrwng ar y daith hon. Mae dechrau yn yr ysgol yn garreg filltir arwyddocaol, ac rydym yn deall ei fod yn dod â disgwyliad ac emosiwn. Byddwch yn dawel eich meddwl bod ein staff ymroddedig yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn bob cam o'r ffordd, gan greu amgylchedd cynnes, meithringar lle gallant ffynnu.

Mae'r flwyddyn hon yn addo bod yn gyfoethog o gyfleoedd—prosiectau diddorol, digwyddiadau llawen, a phrofiadau dysgu ystyrlon a fydd yn meithrin datblygiad academaidd a phersonol. Rydym yn eich annog i aros mewn cysylltiad, boed drwy fynychu digwyddiadau ysgol, gwirfoddoli, neu gadw mewn cysylltiad â chynnydd eich plentyn. A pheidiwch ag anghofio cymryd pum munud yn wythnosol i ddarllen Post Penalltau! —dyma'ch ffynhonnell gyntaf ar gyfer yr holl ddiweddariadau diweddaraf.

Diolch am roi eich ymddiriedaeth ynom ni. Rydym yn gyffrous i ddechrau'r bennod newydd hon gyda'n gilydd ac yn edrych ymlaen at flwyddyn sy'n llawn twf, darganfyddiad, a llwyddiant a rennir.

Gadewch i ni wneud dechrau gwych iddo.

## **PAWB**

### **Gwybodaeth Diogelu**

Mae diogelu wrth galon popeth a wnawn yn ein Ysgol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi. Mae ein staff wedi'u hyfforddi i adnabod ac ymateb i unrhyw bryderon, gan greu amgylchedd lle gall disgyblion ffynnu yn academaidd ac yn bersonol. Mae gennym bolisiâu a gweithdrefnau clir ar waith i amddiffyn plant rhag niwed, gan gynnwys mesurau cadarn ar gyfer diogelwch ar-lein. Mae'r agenda diogelu yn eang ei chwmpas, o ofal bugeiliol a gwrth-fwllo i sicrhau bod plant yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod neu'r risg o radicaleiddio. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth gadw ein plant yn ddiogel.

Os oes gennych unrhyw bryderon, dyma'r bobl y gallwch gysylltu â nhw sef ein swyddogion diogelu lefel uwch yn yr ysgol:



Mr. Tom Rainsbury (Swyddog Diogelu Dynodedig)



Mrs Lowri Owen (Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig)



Mr Ashley Gittings (Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig)

## **PAWB**

### **Cefnogaeth Swyddfa**

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein staff swyddfa ymroddedig, sydd yma i gefnogi ein teuluoedd ysgol gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon. P'un a oes angen cymorth gyda phresenoldeb arnoch, os oes gennych gwestiynau am bolisïau ysgol, neu'n syml angen gwybodaeth gyffredinol, mae ein tîm swyddfa cyfeillgar yn barod i helpu.

Wrth y llyw yn ein swyddfa mae Mrs April Watkins a Mrs Jayne Richards, ein Rheolwyr Swyddfa. Gyda'u chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth ddofn o weithrediadau ein hysgol, mae Mrs Watkins a Mrs Richards yn goruchwyllo'r swyddfa ac yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Nhw yw eich pobl cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau cymhleth neu os oes angen arweiniad arnoch ar faterion ysgol mwy penodol.



Mrs April Watkins



Mrs Jayne Richards



## **PAWB**

### **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi i ymuno â ni ar gyfer y cyfarfod CRhA sydd i ddod ar ddydd Mawrth, Medi 30ain am 6pm, a gynhelir yn nhafarn y Plough ym Mhenpedairheol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn chwarae rhan hollbwysig yng nghymuned ein hysgol drwy feithrin cydweithrediad rhwng rhieni ac addysgwyr. Trwy eu hymdrechion ymroddedig, maent yn helpu i drefnu digwyddiadau a

gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiad addysgol ein plant. Mae llawer wedi'i gynllunio ar gyfer eleni ac rydym angen eich help!

Un o gyfraniadau allweddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yw codi arian. Mae'r arian a godir o fudd uniongyrchol i'n plant trwy ariannu adnoddau hanfodol, cefnogi gweithgareddau allgyrsiol, a gwella'r amgylchedd dysgu cyffredinol. Mae eich cyfranogiad a'ch cefnogaeth yn hanfodol i barhau â'r ymdrechion hyn, gan eu bod yn ein galluogi i ddarparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd a gwelliannau i'n plant

Rydym yn annog llawer o rieni i fynychu a chymryd rhan. Bydd eich presenoldeb a'ch mewnbwn yn helpu i gryfhau cymuned ein hysgol a sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau bosibl.



## **BLWYDDYN 2 | 6**

### **Etholiadau Cyngor Ysgol**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd ein hetholiadau cynghorau ysgol blynyddol yn cael eu cynnal yr wythnos nesaf. Bydd cyfle i'r disgyblion enwebu eu hunain ar gyfer ein cyngor Ysgol.

Yn ogystal, eleni bydd paneli llais disgybl pwysig canlynol:

Blwyddyn 3 - Pwyllgor Iechyd a Lles

Blwyddyn 4 – Eco bwyllor

Blwyddyn 5 - Dreigiau – Siarter Iaith


Blwyddyn 6 – Arweinwyr Digidol

Cynrychiolwyr o Flwyddyn 2-6 a Swyddogion Blwyddyn 6 – Cyngor Ysgol

Mae'r cynghorau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio bywyd ysgol drwy ganiatáu i ddisgyblion leisio'u barn a chymryd rhan mewn prosesau gwneud

penderfyniadau. Maent yn darparu llwyfan i blant gyfrannu at wella eu hamgylchedd dysgu, yn gwneud awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ysgol, ac yn cymryd cyfrifoldeb am feysydd fel yr amgylchedd, technoleg, lles, a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae bod yn rhan o'r cynghorau hyn yn gyfle gwych i ddisgyblion ddatblygu medrau arwain, gweithio fel tîm, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng nghymuned yr ysgol.



## **PAWB**

### **URDD - Ymaelodwch Nawr!**

Mae'r ddolen ymelodaeth gyda'r Urdd nawr ar agor!

Mae'r ymelodaeth gyda'r Urdd yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at holl weithgareddau a digwyddiadau yr Urdd tu fewn a thu hwnt I furiau'r Ysgol.

Mae'r Urdd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd i aelodau ledled Cymru, o chwaraeon i'r celfyddydau, cystadlu, antur a chymdeithasu - mae rhywbeth i bawb! Mae rhain yn cynnwys:

- **Gwersyll yr Urdd:** Cyfle am antur gyda ffrindiau yn gwersyll yr Urdd Llangrannog.
- **Eisteddfod yr Urdd:** Cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau sy'n cynnwys canu a dawnsio, trin gwallt a harddwch, creu aps a chomedi stand yp.
- **Chwaraeon:** Rygbi, nofio, pêl-droed, pêl-fasged, gymnasteg... Mae pob math o glybiau, gweithgareddau a chystadlaethau ar gael drwy'r Gymraeg.

Defnyddiwch y ddolen isod er mwyn ymelodi eich plentyn:

[Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#)



## BLWYDDYN 6

### CWM RHYMNI - Cyfarfod Pontio i Ddisgyblion a Rhieni

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cynnal sesiwn yn Ysgol Gymraeg Penalltau ar ddydd Llun 29ain o Fedi am 3:30pm ar gyfer plant a rhieni blwyddyn 6 fel rhan o'r cynllun pontio i'r uwchradd. Bydd hyn yn gyfle gwych i chi a'ch plant dod i adnabod rhai o staff ac arferion yr Ysgol.



## Blwyddyn 1-6

### Clybiau Allgyrsiol

Y hanner tymor yma bydd clybiau allgyrsiol yn cychwyn yr wythnos yn dechrau **15/09/2025 (heb law am glwb rygbi/pel-droed sydd yn dechrau ar 23/09)**. Mae'r clybiau a'r amseroedd fel a ganlyn:

**Pel-Rwyd** (ar gyfer plant blwyddyn 4 - 6) - **Dydd Llun 3:30 – 4:30** (Yn dechrau ar 15/09/2025).

**Clwb Crefftau (ar gyfer plant a rhieni/gwarchodwyr blwyddyn 1 - 3) - Dydd Llun 3:30 – 4:30** (Yn dechrau ar 15/09/2025).

**Dawnsio Gwerin** (ar gyfer plant blwyddyn 2 -4) – **Dydd Mawrth 3:30 – 4:30** (Yn dechrau ar 16/09/2025).

**Rygbi/Pel-droed** (ar gyfer plant blwyddyn 5 -6) – **Dydd Mawrth 3:30 - 4:30** (Yn dechrau ar 23/09/2025).

Fel y nodwyd rydym yn gwahodd rhieni/gwarchodwyr i ddod ac i ymuno â'u plant yn y clwb Crefftau Teuluol. Rydym yn awyddus iawn i gysylltu â'n teuluoedd a gwahodd rhieni i mewn i fwynhau peth amser gwerthfawr gyda'u plant mewn amgylchedd allgyrsiol. Yn ogystal, gobeithio y byddwn yn dod ychydig yn fwy ffit o ganlyniad!

Ar gyfer y clybiau ysgol mae lleoedd wedi'u cyfyngu i 30 o leoedd Mae hyn am resymau iechyd a diogelwch. Bydd lleoedd yn cael eu harchebu ar sail y cyntaf i'r felin. Wrth gwrs, byddwn yn hysbysu i rhieni os oes unrhyw leoedd pellach. Er mwyn ceisio cael lle i'ch plentyn ar gyfer un o'r clybiau ysgol plis lenwch y ffurflen ar y ddolen yma erbyn Dydd Mercher 10fed o Fedi:

<https://forms.office.com/e/9mbFqmRi8w>



## **PAWB**

### **Rhai Dyddiadau Pwysig i'ch Dyddiadur**

#### **Diwrnodau Hyfforddi**

- 1/09/2025
- 2/09/2025
- 5/01/2026
- 13/04/2026
- 1/06/2026

Gellir darganfod rhestr o wyliau a ddyddiadau trwy ddilyn y ddolen hon:

[Caerphilly - Caerphilly County Borough](#)



## **PAWB**

### **Alergedd Cnau**

Mae gennym blant yn Ysgol Penalltau sydd ag alergedd i gnau. Gall alergedd i gnau fod yn hynod ddifrifol, hyd yn oed yn bygwth bywyd. Mae Ysgol Penalltau yn ceisio cynnig amgylchedd dysgu diogel i bawb sy'n rhan o'r gymuned ysgol ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch rheoli alergedd difrifol. Er bod yr ysgol yn cydnabod y bydd y myfyriwr, eu rhieni/gofalwyr a'r ysgol yn cymryd pob mesur rhesymol, ni allwn sicrhau fod dim cnau yn yr adeilad. Fodd bynnag, rydyn ni'n gofyn i aelodau eraill o'r ysgol gadw hyn mewn cof wrth ddarparu byrbrydau a pheccynnau cinio. Rydym hefyd yn annog rhieni i sicrhau bod pob byrbryd a pheccyn cinio yn dilyn canllawiau bwyta'n iach a taw dim ond ffrwythau neu lysiau sy'n cael eu rhoi fel byrbryd canol bore.



## PAWB

### Amserlen y Goedlan

Gweler isod amserlen tymor hwn ar gyfer diwrnod goedlan eich plentyn.

	Llun	Maw	Mer	Iau
WD 15/09	Seithennyn	Branwen	Gelert	
WD 22/09	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto
WD 29/09	Seithennyn	Branwen	Gelert	
WD 06/10	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WD 13/10	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WD 20/10	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WD 3/11	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WD 10/11	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WD 17/11	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WD 24/11	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin



## PAWB

### Cefnogaeth i Deuluoedd gan y GIG

Dilynwch y dolenni am wybodaeth am gefnogaeth i deuluoedd gan y GIG a gweithdau.

[https://docs.google.com/document/d/16dUzGnL4ckdkYn7IP8hPKb76q\\_8xAgeW/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true](https://docs.google.com/document/d/16dUzGnL4ckdkYn7IP8hPKb76q_8xAgeW/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true)

<https://docs.google.com/document/d/1VkrHrR4yk9BCRkK-9O8QrK-bhIEltJaZ/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true>



## Pawb

### Te a Sesiwn Sgwrs!

Bydd ein Bore Te/Coffi Rhieni bob pythefnos yn ailgychwyn **dydd Mercher** nesaf, **10/09/2025 o 9:00yb i 9:30yb** yn neuadd yr ysgol. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae hwn yn gyfle i sgwrsio, mwynhau paned o de neu goffi, a rhannu bisgedi wrth drafod bywyd yr ysgol, unrhyw syniadau sydd gennych neu ddim ond sgwrs anffurfiol.

P'un a ydych chi'n rhiant newydd neu wedi bod gyda ni ers blynyddoedd, mae eich presenoldeb a'ch mewnbwn yn amhrisiadwy. Gadewch i ni ddod at ein gilydd i adeiladu cymuned gefnogol i'n plant!

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno!



As we stand on the threshold of a brand-new academic year, we extend a warm welcome to all our families—those returning and those joining us for the first time in Reception and Nursery. We hope your summer has been full of joy, rest, and meaningful moments with your loved ones.

Our school is once again filled with the energy and excitement of children eager to learn, play, and grow.

To our Reception and Nursery families, it is an honour for us to accompany you on this journey. Starting school is a significant milestone, and we understand it brings both anticipation and emotion. Rest assured that our dedicated staff are here to support you and your child every step of the way, creating a warm, nurturing environment where they can thrive.

This year promises to be rich with opportunities—exciting projects, joyful events, and meaningful learning experiences that will nurture both academic and personal development. We encourage you to stay connected, whether by attending school events, volunteering, or keeping in touch with your child's progress. And don't forget to take five minutes each week to read Post Penalltau! —your go-to source for all the latest updates.

Thank you for placing your trust in us. We are excited to begin this new chapter together and look forward to a year full of growth, discovery, and shared success.

## **EVERYONE**

### **Safeguarding Information**

Safeguarding is at the heart of everything we do in Ysgol Gymraeg Penalltau. We are committed to ensuring that every child feels safe, valued and supported. Our staff are trained to recognize and respond to any concerns, creating an environment where pupils can flourish academically and personally. We have clear policies and procedures in place to protect children from harm, including robust measures for online safety. The safeguarding agenda is wide-ranging, from pastoral care and anti-bullying to ensuring that children are safe from abuse and neglect or the risk of radicalisation. We all have a part to play in keeping our children safe.

If you have any concerns, these are the people you can contact who are our senior safeguarding officers at the school:



Mr. Tom Rainsbury (Swyddog Diogelu Dynodedig)



Mrs Lowri Owen (Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig)



Mr Ashley Gittings (Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig)

## EVERYONE

### Office Support

We are pleased to introduce our dedicated office staff, who are here to support our school families with any questions or concerns. Whether you need help with attendance, have questions about school policies, or simply need general information, our friendly office team are ready to help.

At the helm of our office are Mrs April Watkins and Mrs Jayne Richards, our Office Managers. With their wealth of experience and deep understanding of our school's operations, Mrs Watkins and Mrs Richards oversee the office and ensure that everything runs smoothly. They are your contact people for any complex inquiries or if you need guidance on more specific school matters.



Mrs April Watkins



Mrs Jayne Richards



## **EVERYONE**

### **Parent Teacher Association Annual General Meeting**

We extend a warm invitation to you to join us for the upcoming PTA meeting on Tuesday, September 30th at 6pm, which will be held at the Plough pub in Cascade. The Parent Teacher Association plays a vital role in our school community by

fostering collaboration between parents and educators. Through their dedicated efforts, they help organize events and activities that enrich the educational experience of our children. We have a lot planned for this year and we need your help!

One of the PTA's key contributions is fundraising. The money raised directly benefits our children by funding essential resources, supporting extracurricular activities, and improving the overall learning environment. Your participation and support is essential to continue these efforts, as they enable us to provide even more opportunities and improvements for our children

We encourage as many parents as possible to attend and participate. Your presence and input will help to strengthen our school community and ensure that our children receive the best possible education.



## **YEAR 2 TO 6**

### **School Council Elections**

We are pleased to announce that our annual school council elections will be held next week. There will be an opportunity for the pupils to nominate themselves for our School council.

In addition, this year there will be the following important pupil voice panels:

Year 3 - Health and Wellbeing Committee

Year 4 – Eco moderate

Year 5 - Dragons - Language Charter

Year 6 – Digital Leaders

## Representatives from Year 2-6 and Year 6 Prefects – School Council

These councils play a vital role in shaping school life by allowing pupils to voice their opinions and participate in decision-making processes. They provide a platform for children to contribute to improving their learning environment, make suggestions for school activities, and take responsibility for areas such as the environment, technology, well-being, and promoting the Welsh language.

Being part of these councils is a great opportunity for pupils to develop leadership skills, work as a team, and make a real difference in the school community.



### EVERYONE

#### URDD - Join Now!

The membership link for the Urdd is now open!

Membership with the Urdd ensures that pupils have access to all the activities and events that the Urdd can offer within and beyond the walls of the School.

The Urdd provides a wide variety of activities and opportunities for members throughout Wales, from sport to the arts, competition, adventure and socializing - there is something for everyone! These include:

- **Gwersyll yr Urdd:** An opportunity for an adventure with friends at Urdd Llangrannog camp.
- **Urdd Eisteddfod:** Compete in a variety of competitions that include singing and dancing, hair and beauty treatment, creating apps and stand up comedy.
- **Sports:** Rugby, swimming, football, basketball, gymnastics... All kinds of clubs, activities and competitions are available through the Welsh language.

Use link below to register your child with the Urdd:

[Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#)



## **YEAR 6**

### **CWM RHYMNI - Transition Meeting for Pupils and Parents**

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni will hold a session at Ysgol Gymraeg Penalltau on Monday 29th of September at 3:30pm for year 6 children and parents as part of the transition plan to secondary school. This will be a great opportunity for you and your children to get to know some of the School's staff and more about the school itself.



## Years 1–6

### Extracurricular Clubs

This half term, extracurricular clubs will begin the week starting **15/09/2025** (*except for the rugby/football club which starts on 23/09*). The clubs and their times are as follows:

**Netball** (for children in Years 4–6) – **Monday 3:30–4:30** (Starts on 15/09/2025)

**Craft Club** (for children and parents/carers in Years 1–3) – **Monday 3:30–4:30** (Starts on 15/09/2025)

**Folk Dancing** (for children in Years 2–4) – **Tuesday 3:30–4:30** (Starts on 16/09/2025)

**Rugby/Football** (for children in Years 5–6) – **Tuesday 3:30–4:30** (Starts on 23/09/2025)

As noted, we are inviting parents/carers to come and join their children in the Family Craft Club. We are very keen to connect with our families and invite parents in to enjoy some valuable time with their children in an extracurricular setting. Additionally, we hope we'll all become a little fitter as a result!

For the school clubs, places are limited to 30 due to health and safety reasons. Places will be allocated on a first come, first served basis. Of course, we will notify parents if any additional places become available.

To try and secure a place for your child in one of the school clubs, please complete the form at the following link by Wednesday 10<sup>th</sup> of September:

<https://forms.office.com/e/9mbFqmRi8w>



## **EVERYONE**

### **Some Important Dates for Your Diary**

#### **Teacher Training Days**

- 1/09/2025
- 2/09/2025
- 5/01/2026
- 13/04/2026
- 1/06/2026

A list of holidays and dates can be found by following this link:

[Caerphilly - Caerphilly County Borough](#)



## **EVERYONE**

### **Nut Allergies**

We have children at Ysgol Penalltau with nut allergies. Nut allergies can be very serious, even life threatening. Ysgol Penalltau aims to provide a safe learning environment for all members of the school community and to raise the awareness

regarding severe allergies management. Although the school acknowledges that a student, their parents/carers and the school will take all reasonable precautions, we cannot guarantee a nut free zone. However, we ask that other members of the school are mindful of this when packing snacks and packed lunches.

We also encourage parents to ensure that all snacks and packed lunches follow healthy eating guidelines and that only fruit or vegetables are provided as a mid-morning snack.



## EVERYONE

### Woodland Timetable

Please see below the timetable for each class woodland sessions for the Autumn Term

	Mon	Tues	Wed	Thurs
WC 15/09	Seithennyn	Branwen	Gelert	
WC 22/09	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto
WC 29/09	Seithennyn	Branwen	Gelert	
WC 06/10	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WC 13/10	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WC 20/10	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WC 3/11	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WC 10/11	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin
WC 17/11	Seithennyn	Branwen	Gelert	Melangell / Meithrin
WC 24/11	Blodeuwedd	Dwynwen	Llywelyn	Guto / Meithrin



## PAWB

### Support for Families from the NHS

Follow the links for information about support and workshops for families via the NHS.

[https://docs.google.com/document/d/16dUzGnL4ckdkYn7IP8hPKb76g\\_8xAgeW/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true](https://docs.google.com/document/d/16dUzGnL4ckdkYn7IP8hPKb76g_8xAgeW/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true)

<https://docs.google.com/document/d/1VkrHrR4yk9BCRkK-9O8QrK-bhIEltJaZ/edit?usp=sharing&oid=101688875377179994286&rtpof=true&sd=true>



## Everyone Tea and Chat Session!

Our Parent Tea/Coffee Morning will restart fortnightly next Wednesday, **10/09/2025**, from **9:00am to 9:30am** in the school hall. As mentioned previously, this is an opportunity to chat, enjoy a cup of tea or coffee, and share biscuits while discussing school life, any ideas you may have, or just for an informal chat.

Whether you're a new parent or have been with us for years, your presence and input are invaluable. Let's come together to build a supportive community for our children!

We look forward to seeing you there!

**Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi / *Important contact details that could be of use to you:***

**Caerphilly Employment Support:** 01443 864227

**Samaritans:** 116 123 (24 awr y dydd / *24 hours a day*)

**Wales Domestic Abuse Helpline:** 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / *every day*).

**Mind Cymru:** 0300 123 3393

**Childline:** 0800 1111 (24 awr y dydd / *24 hours a day*)

**Women's Aid:** 01495 742061 (24 awr y dydd / *24 hours a day*)

**Eastern Valley Food Bank:** 01495 760605

Mae Croeso i chi gysylltu gyda Ysgol Gymraeg Penalltau yn Gymraeg neu Saesneg  
You are welcome to contact Ysgol Gymraeg Penalltau in Welsh or English

